Dyddiad Cymeradwyo: Awst 2022

Cymeradwywyd gan:

Perchennog: Lynette Evans

Fersiwn: 2

Statws Rhyddid Gwybodaeth: Agored

Dyddiad Adolygu: Awst 2025

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf

Canllawiau i Gwblhau Ffurflen Gais Hunanasesu ar gyfer Man Parcio.

Canllawiau Cwblhau Ffurflen Gais Hunanasesu

CYFEIRIWCH AT Y CANLLAW YMA WRTH GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS HUNANASESIAD SYDD WEDI'I GYNNWYS.

Mae'r Ffurflen Hunanasesu yn ddogfen a gafodd ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth gefndir bwysig ynglŷn â'ch amgylchiadau. Caiff ei defnyddio ar ddechrau'r broses asesu er mwyn sicrhau eich bod chi'n bodloni'r meini prawf allweddol. Dylech chi ddarparu cymaint o fanylion â phosibl.

Adran 1 - Gwybodaeth am ymgeiswyr

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu ar ran rhywun sy'n methu â llenwi a chwblhau'r ffurflen ei hun, nodwch fanylion y person yn yr adrannau priodol a llofnodi'r ffurflen ar ran yr unigolyn.

Adrannau 2 a 3 - Y Meini Prawf Sylfaenol

C1 - Rhaid i bob ymgeisydd fod yn ddeiliad Bathodyn Glas i Bobl Anabl. Heb y bathodyn yma, does DIM modd i'r ymgeisydd fod yn gymwys am Fan Parcio o dan y Cynllun yma.

C2 - Mae'r cwestiwn yma yn nodi pwy yw prif yrrwr y prif gerbyd a gaiff ei ddefnyddio i gludo'r ymgeisydd o'r naill le i'r llall. Pan dyw'r ymgeisydd ddim yn brif yrrwr ar y car, dylid nodi na fydd teithwyr anabl yn cymhwyso fel arfer. Fel arfer, dydy hi ddim yn afresymol i ddisgwyl i yrrwr sy'n abl yn gorfforol barcio wrth ymyl car arall am ba bynnag hyd sydd ei angen er mwyn casglu neu ollwng y teithiwr anabl, gan symud y car yn syth wedyn.

C3 - Os yw'r ymgeisydd yn deithiwr, mae angen iddo ddibynnu ar rywun arall sy'n byw yn yr un cyfeiriad, sy'n parcio'i gar y tu allan i'r eiddo. Os dydy'r prif yrrwr ddim yn byw yn yr un eiddo â'r ymgeisydd, fydd y Cyngor DDIM yn ystyried y cais am fan parcio, ni waeth pa mor aml mae'r gyrrwr yn ymweld â'r eiddo neu'n aros yno.

Adran 4 - Parcio hygyrch oddi ar y ffordd a Gwaharddiadau Traffig

C4 - Os oes unrhyw fesurau atal traffig ar waith sy'n atal pobl rhag parcio y tu allan i'r eiddo (e.e. llinellau melyn dwbl) yna fydd dim modd darparu Man Parcio. **Mae'r wybodaeth yma'n hanfodol a byddwn ni'n dychwelyd y ffurflen atoch chi os dydych chi ddim yn rhoi ateb llawn i'r cwestiwn yma.**

Adran 5 – Offer Symudedd

C5 - Dylai'r ymgeisydd roi manylion ynglŷn â natur ei anabledd a chynnwys gwybodaeth benodol am y ffordd mae'r cyflwr yma yn effeithio ar ei allu i gyrraedd y car a'i ddefnyddio.

C6 - Nod y cwestiwn yma yw cyflwyno gwybodaeth gefndir i'r Aseswr ynglŷn â'r ffordd y mae anabledd yr ymgeisydd yn effeithio ar ei allu i yrru neu gael ei gludo. Os yw'n berthnasol, nodwch pa addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r car.

C7 - Ticiwch y blychau sy'n disgrifio unrhyw gyfarpar y mae'r ymgeisydd yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Os dydy'r ymgeisydd ddim yn defnyddio cyfarpar o'r fath, ticiwch y blwch 'Dim yn Defnyddio' a nodwch fanylion am y cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio yn yr ardal gyferbyn.

C8 - Mae hyn yn nodi p'un a yw gweithiwr meddygol proffesiynol wedi argymell i'r ymgeisydd ddefnyddio'r cyfarpar neu a yw'r ymgeisydd wedi prynu'r cyfarpar drosto'i hun. Ticiwch y blwch cywir - os yw'n berthnasol, nodwch enw'r meddyg teulu/gweithiwr proffesiynol a ragnododd y cyfarpar ar eich cyfer chi.

C9 - Nodwch p'un a oes angen cymorth er mwyn helpu'r ymgeisydd i fynd i mewn i'r car neu ddod allan o'r car. Os yw'n berthnasol, defnyddiwch y lle sydd wedi'i ddarparu i nodi enw'r unigolyn sy'n darparu'r cymorth, yn ogystal â natur a chwmpas y cymorth.

C10 - Caiff yr wybodaeth yma ei defnyddio i asesu faint o gymorth y mae modd i'r gyrrwr ei ddarparu i'r ymgeisydd, a hynny yn seiliedig ar natur a chwmpas ei anabledd.

C11 - Unwaith eto, caiff yr wybodaeth yma ei defnyddio i benderfynu ar y graddau y mae modd i'r gyrrwr helpu'r ymgeisydd os yw'n cludo unrhyw gyfarpar arbenigol.

C12 - Caiff hyn ei ddefnyddio i asesu a oes unrhyw opsiynau eraill ac eithrio man parcio y mae modd eu defnyddio i wella'r sefyllfa o ran parcio.

Adran 6 – Parcio Presennol

C13 - Rhowch ateb manwl er mwyn disgrifio'r math o anawsterau mae'r ymgeisydd yn eu hwynebu o ran parcio. Gallai hyn gynnwys problemau megis trafferth parcio y tu allan i'r eiddo am ei fod yn agos at siopau neu ysgolion. Yn ogystal â hynny, nodwch pa mor aml mae'r broblem yma'n codi, er enghraifft 'diwedd y prynhawn a gyda'r nos yn ystod dyddiau'r wythnos' neu 'drwy gydol y dydd ar benwythnosau'.

Adran 7 - Mynediad

C14 - Mae hyn yn ymwneud â mynediad i gartref yr ymgeisydd. Os oes grisiau'n arwain at yr eiddo, nodwch nifer y grisiau y mae angen eu dringo.

C15 - Wrth ateb y cwestiwn yma, dylai'r ymgeisydd gynnwys pob gweithgaredd a gaiff ei effeithio drwy gael mynediad at y car, nid y gweithgareddau sy'n ymwneud â'r tri chwestiwn sydd wedi'u cynnwys yn unig.

Adran 8 - Gwybodaeth Bellach

C16 - Dyma gyfle'r ymgeisydd i gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd efallai ddim wedi'i chynnwys yn y cwestiynau blaenorol. Sicrhewch fod yr wybodaeth sy'n ymwneud â phroblemau symudedd / lleoliad yn nodi'r berthynas rhwng hynny a chael mynediad at y car.